



Cymeradwywyd 25 Mai 2021

Diben y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth i gynghori'r Bwrdd ar faterion sy'n gysylltiedig â chyflog a chyflwr gwasanaeth deiliaid uwch swyddi.

Mae'r Gorfforaeth wedi ymrwmo at egwyddorion cydraddoldeb o ran cyfleoedd ac amrywiaeth yn y gweithle. Mae holl argymhellion y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn llwyr ystyried gofynion statudol mewn perthynas â'r egwyddorion hyn.

Y rolau dynodedig fel deiliaid uwch swyddi, fel a nodwyd yn y Rheolau Sefydlog (8.2.1), yw:

- Pennaeth/Prif Weithredwr
- Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd)
- Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio)
- Swyddog Llywodraethu

1. Cyfrifoldebau Ymgynghorol

Ystyried a gwneud argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas â:

- 1.1 Telerau contractiol, swydd ddisgrifiadau, polisiau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â Deiliaid Uwch Swyddi.
- 1.2 Gwobrwyo a chydabod trefniadau ar gyfer yr holl ddeiliaid swyddi uwch, yn seiliedig ar:
 - Rolau a chyfrifoldebau
 - Perfformiad

a gan ystyried:

- Data meincnodi perthnasol
 - Unrhyw wobwr cyflog staff diweddar.
- 1.3 Telerau toriad neu golli swydd ar gyfer deiliaid uwch swyddi.
 - 1.4 Unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Deiliaid Uwch Swyddi ay cyfeirir ato gan y Bwrdd.

2. Materion ychwanegol

- 2.1 Dim ond cynghori mae'r pwyllgor, ac nid oes ganddo unrhyw bwerau dynodedig o ran gwneud penderfyniadau.

- 2.3 Os caiff y Swyddog Llywodraethu ei wahardd o gyfarfod y pwyllgor, bydd y Cadeirydd yn trefnu i wneud cofnod o'r cyfarfod. Cedwir cofnodion y cyfarfod dan reolaeth y Cadeirydd.
- 2.2 Bydd y Pwyllgor yn darparu adroddiad crynodeb cyfrinachol a/neu ddiweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar ôl bob cyfarfod.
- 2.5 Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu'n FLYNYDDOL.

Aelodaeth: 4

Yn cynnwys:
Y Cadeirydd
Is-gadeirydd
2 Llywodraethwr Annibynnol ychwanegol

Gan eithrio'r Pennaeth/Prif Swyddog
Gweithredol
Gan eithrio Staff a Llywodraethwr Myfyrwyr

Bydd y pwyllgor yn cael ei gadeirio gan
Gadeirydd y Gorfforaeth

Mae gan y pwyllgor hawl i gael cyngor annibynnol a phroffesiynol gan unigolion nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad neu arbenigedd perthnasol, a'u gwahodd i'w gyfarfodydd.

Cworwm: 4

Amllder y cyfarfodydd: Unwaith y flwyddyn

